



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 Rhif 2861 (Cy.250)

2009 No. 2861 (W.250)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

**Rheoliadau Gwastraff Peryglus
(Cymru) (Diwygio) 2009**

**The Hazardous Waste (Wales)
(Amendment) Regulations 2009**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) (O.S. 2005/1806) (Cy.138) ("Rheoliadau 2005"), sy'n rhoi ar waith Gyfarwydddeb y Cyngor 91/689/EEC ar wastraff peryglus (OJ Rhif L 377, 31.12.1991, t.20).

These Regulations amend the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 (S.I. 2005/1806) (W.138) ("the 2005 Regulations"), which implement Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste (OJ No. L 377, 31.12.1991, p.20).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

These Regulations apply in relation to Wales.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r diffiniad o "mangre" yn rheoliad 5(1) er mwyn ei gwneud yn eglur fod y term yn cynnwys tir.

Regulation 3 amends the definition of "premises" in regulation 5(1) to clarify that the term includes land.

Mae rheoliad 5 yn disodli rheoliad 13 o Reoliadau 2005 gyda rheoliad 13 newydd sy'n ei gwneud yn eglur nad oes dim yn Rheoliadau 2005 yn gosod rhwymedigaethau ar rai sy'n meddiannu mangre ddomestig o ran gwastraff asbestos a gynhyrchir yn y fangre honno ac y bydd contractwr sy'n gwneud gwaith mewn cysylltiad â gwastraff asbestos yn cael ei drin fel cynhyrchydd y gwastraff hwnnw.

Regulation 5 replaces regulation 13 of the 2005 Regulations with a new regulation 13 to clarify that nothing in the 2005 Regulations imposes obligations on occupiers of domestic premises in relation to asbestos waste produced at those premises and that a contractor carrying out works relating to asbestos waste will be treated as the producer of that waste.

Mae rheoliad 6 yn disodli rheoliad 14 o Reoliadau 2005 gyda rheoliad 14 newydd. Mae hyn er mwyn ei gwneud yn eglur fod meddiannydd mangre ddomestig wedi'i eithrio o'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â ffracsiynau domestig wedi'u gwahanu o wastraff peryglus. Mae'r rheoliad hefyd yn ei gwneud yn eglur fod y cyfyngiadau ar gymysgu gwastraff peryglus a geir yn Rhan 4 o Reoliadau 2005 yn gymwys o'r adeg pan ddigwydd naill ai fod y gwastraff yn cael ei dderbyn ar gyfer ei gasglu, ei waredu neu ei adfer o fangre ddomestig neu fod y gwastraff yn cael ei dderbyn ar safle ar gyfer gwastraff domestig pan eir ag ef yno gan feddianwyr mangreoedd domestig.

Regulation 6 replaces regulation 14 of the 2005 Regulations with a new regulation 14. This is to clarify that the occupier of domestic premises is exempt from obligations relating to separated domestic fractions of hazardous waste. The regulation also clarifies that the restrictions on the mixing of hazardous waste in Part 4 of the 2005 Regulations apply from the time that waste is either accepted for collection, disposal or recovery from domestic premises or accepted at a site for domestic waste when it is taken there by occupiers of domestic premises.

Mae rheoliad 7 yn mewnosod rheoliad 14A newydd yn Rheoliadau 2005. Mae hyn yn ymestyn cymhwysiad darpariaeth a gynhwysid gynt yn rheoliad 30 o Reoliadau 2005 sy'n ymwneud â chynhyrchu gwastraff peryglus gan gwsmeriaid mewn mangre siop dros y cyfan o Reoliadau 2005.

Mae rheoliad 8 yn diwygio rheoliad 21(1) o Reoliadau 2005 fel y bydd y gofyniad i hysbysu'r fangre yn gymwys pan fo gwastraff peryglus yn cael ei gasglu mewn unrhyw fangre ag eithrio mangre esempt.

Mae rheoliad 9 yn disodli rheoliad 23 o Reoliadau 2005 gyda rheoliad 23 newydd sy'n estyn yr esemptiad rhag y gofyniad i hysbysu'r fangre lle cynhyrchir gwastraff peryglus o fod ar gyfer mathau dynodedig o fangreoedd i fod ar gyfer unrhyw fangre sy'n llong neu sy'n fangre y mae'r terfynau cymwys yn gymwys iddi, cyn belled ag mai dim ond cludwr gwastraff sydd wedi'i gofrestru neu sy'n esempt sy'n symud ymaith y gwastraff peryglus.

Mae rheoliad 10 yn diwygio rheoliad 26 o Reoliadau 2005 er mwyn cwtdogi ar swm yr wybodaeth y mae'n ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd ei rhyddhau ynghylch mangre a hysbyswyd iddi.

Mae rheoliad 11 yn disodli rheoliad 30 o Reoliadau 2005 gyda rheoliad 30 newydd sy'n codi'r terfynau cymwys o 200kg i 500kg. Mae'r rheoliad newydd yn hepgor y cyfeiriad at wastraff peryglus a gynhyrchir gan gwsmeriaid mewn mangre siop gan y bydd hyn bellach wedi'i gymhwyso i'r cyfan o Reoliadau 2005.

Mae rheoliad 13 yn diwygio rheoliad 42 o Reoliadau 2005 er mwyn cywiro'r cyfeiriad at y rhan honno o ffurflen y nodyn traddodi amlgasgliad sy'n ffurfio tystysgrif y traddodai. Mae'r rheoliad hefyd yn cynnwys diwygiadau sy'n eglurhau cyfeiriadau at Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007.

Mae rheoliad 14 yn diwygio rheoliad 48(3) o Reoliadau 2005 i'w gwneud yn ofynnol i'r cofnod o wastraff peryglus gynnwys, fel sy'n gymwys, fanylion o'r dull gwaredu a fu ar y gwastraff yn ychwanegol at y dull adfer ar gyfer y gwastraff.

Mae rheoliad 15 yn cywiro rheoliad 49(1) o Reoliadau 2005 fel y bydd y rheoliad hwnnw yn gymwys pan nad yr un fydd traddodwr gwastraff peryglus a'i gynhyrchydd neu ei ddeiliad.

Mae Asesiad Effaith o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei gael ar gost cydymffurfiaeth i fusnesau a'i fudd amgylcheddol ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Regulation 7 inserts a new regulation 14A into the 2005 Regulations. This extends the application of a provision which had been included in regulation 30 of the 2005 Regulations relating to the production of hazardous waste at shop premises by customers to the whole of the 2005 Regulations.

Regulation 8 amends regulation 21(1) of the 2005 Regulations so that the requirement to notify premises will apply where hazardous waste is collected at any premises other than exempt premises.

Regulation 9 replaces regulation 23 of the 2005 Regulations with a new regulation 23 which extends the exemption from the requirement to notify premises at which hazardous waste is produced from specified types of premises to any premises which are a ship or to which the qualifying limitation applies, provided the hazardous waste is only removed by a registered or exempt waste carrier.

Regulation 10 amends regulation 26 of the 2005 Regulations to reduce the amount of information the Environment Agency is required to release about notified premises.

Regulation 11 replaces regulation 30 of the 2005 Regulations with a new regulation 30 which increases the qualifying limitation from 200kg to 500kg. The new regulation omits the reference to hazardous waste produced at shop premises by customers, as this will now apply to the whole of the 2005 Regulations.

Regulation 13 amends regulation 42 of the 2005 Regulations to correct the reference to the part of the form of multiple consignment note which is the consignee's certificate. The regulation also includes amendments to clarify references to the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2007.

Regulation 14 amends regulation 48(3) of the 2005 Regulations to require that the record of hazardous waste includes, as applicable, details of the disposal method in respect of the waste in addition to the recovery method for the waste.

Regulation 15 corrects regulation 49(1) of the 2005 Regulations so that it will apply where a consignor of hazardous waste is different from the producer or the holder of hazardous waste.

An Impact Assessment of the effect that this instrument will have on the costs of compliance to businesses and the environmental benefits is available from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2009 Rhif 2861 (Cy.250)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwastraff Peryglus
(Cymru) (Diwygio) 2009**

Gwnaed 27 Hydref 2009

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 28 Hydref 2009

Yn dod i rym 18 Tachwedd 2009

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) o ran mesurau sy'n ymwneud ag atal, cwtogi a dileu llygredd a achosir gan wastraff. Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 18 Tachwedd 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

2. Diwygir Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(3) fel a ganlyn.

2009 No. 2861 (W.250)

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

**The Hazardous Waste (Wales)
(Amendment) Regulations 2009**

Made 27 October 2009

*Laid before the National
Assembly for Wales* 28 October 2009

Coming into force 18 November 2009

The Welsh Ministers are designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to measures relating to the prevention, reduction and elimination of pollution caused by waste. In exercise of the powers conferred by section 2(2) of that Act, the Welsh Ministers make the following Regulations.

Title, commencement and application

1.–(1) The title of these Regulations is the Hazardous Waste (Wales) (Amendment) Regulations 2009 and they come into force on 18 November 2009.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Amendment to the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005

2. The Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005(3) are amended as follows.

(1) O.S. 2005/850. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(2) 1972 p.68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).

(3) O.S. 2005/1806 (Cy.138), a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/3538; y mae offerynnau diwygio eraill i'w cael, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(1) S.I. 2005/850. By virtue of sections 59(1) and 162 of, and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32) functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are exercisable by the Welsh Ministers.

(2) 1972 c.68; section 2(2) was amended by section 27(1) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51).

(3) S.I. 2005/1806 (W.138), amended by S.I. 2007/3538; there are other amending instruments but none are relevant.

Diwygio rheoliad 5 (dehongli'n gyffredinol)

3. Yn rheoliad 5(1), yn lle'r diffiniad o "mangre" ("*premises*"), rhodder—

"mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys tir ac unrhyw long ac unrhyw ffurf arall ar drafnidiaeth y gweithredir gwasanaeth symudol oddi arni;"

Diwygio rheoliad 12 (cymhwyso cyffredinol ar Rannau 4 i 10)

4. Yn lle rheoliad 12(2), rhodder—

"(2) Ac eithrio fel y darperir yn rheoliadau 13 (gwastraff asbestos) a 14 (ffracsiynau domestig a wahanwyd), nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i wastraff domestig."

Disodli rheoliad 13 (gwastraff asbestos)

5. Yn lle rheoliad 13, rhodder—

"Gwastraff asbestos"

13.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i wastraff asbestos boed yn wastraff domestig ai peidio.

(2) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn gosod rhwymedigaethau ar feddiannydd mangre ddomestig mewn cysylltiad â gwastraff asbestos a gynhyrchwyd yn y fangre honno.

(3) Mae contractwr a gafodd ei gymryd ymlaen i wneud unrhyw waith mewn mangre ddomestig sy'n cynhyrchu gwastraff asbestos, neu sy'n ymwneud â gwastraff asbestos i'w drin fel cynhyrchwr y gwastraff asbestos hwnnw, ac, os nad yw'r contractwr yn cymryd ymlaen berson arall i fod yn draddodwr, fel traddodwr y gwastraff asbestos hwnnw."

Disodli rheoliad 14 (ffracsiynau domestig a gasglwyd ar wahân)

6. Yn lle rheoliad 14, rhodder—

"Ffracsiynau domestig a wahanwyd"

14.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw ffracsiwn domestig a wahanwyd, sef, gwastraff peryglus—

- (a) sy'n wastraff domestig; a
- (b) sydd wedi'i wahanu oddi wrth wastraff domestig arall.

(2) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn gosod rhwymedigaethau ar feddiannydd mangre ddomestig mewn cysylltiad â ffracsiynau domestig a wahanwyd a gynhyrchwyd yn y fangre honno.

(3) Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ffracsiynau domestig a wahanwyd o'r adeg pan gaiff y gwastraff ei dderbyn ar gyfer ei gasglu, ei waredu neu ei adfer—

Amendment of regulation 5 (general interpretation)

3. In regulation 5(1), for the definition of "premises" ("*mangre*"), substitute—

"'premises' ("*mangre*") includes land and any ship and any other means of transport from which a mobile service is operated;"

Amendment of regulation 12 (general application of Parts 4 to 10)

4. For regulation 12(2), substitute—

"(2) Except as provided in regulations 13 (asbestos waste) and 14 (separated domestic fractions), these Regulations do not apply to domestic waste."

Replacement of regulation 13 (asbestos waste)

5. For regulation 13, substitute—

"Asbestos waste"

13.—(1) These Regulations apply to asbestos waste whether or not it is domestic waste.

(2) Nothing in these Regulations imposes obligations on an occupier of domestic premises in relation to asbestos waste produced on those premises.

(3) A contractor who is engaged to carry out any works at domestic premises which produce asbestos waste, or which relate to asbestos waste is to be treated as the producer of the asbestos waste and, where the contractor does not engage another person as consignor, as the consignor of the asbestos waste."

Replacement of regulation 14 (separately collected domestic fractions)

6. For regulation 14, substitute—

"Separated domestic fractions"

14.—(1) This regulation applies to any separated domestic fraction, that is to say, hazardous waste which—

- (a) is domestic waste; and
- (b) has been separated from other domestic waste.

(2) Nothing in these Regulations imposes obligations on an occupier of domestic premises in relation to separated domestic fractions which have been produced at those premises.

(3) Part 4 of these Regulations applies to separated domestic fractions from the time at which the waste is accepted for collection, disposal or recovery—

- (a) o'r fangre ddomestig lle cafodd y gwastraff ei gynhyrchu; neu
- (b) o safle ar gyfer derbyn gwastraff domestig y cymerir y ffracsiynau domestig a wahanwyd iddo gan feddiannydd mangre ddomestig.

(4) Ar ôl i ffracsiynau domestig a wahanwyd gael eu symud ymaith o'r fangre lle cynhyrchwyd y gwastraff a chael ei gludo i fangre arall ar gyfer ei gasglu, ei waredu neu ei adfer, rhaid trin unrhyw sefydliad neu ymgymeriad sy'n derbyn y ffracsiynau domestig a wahanwyd ar gyfer eu casglu, eu gwaredu neu eu hadfer, o'r adeg pan dderbynnir y gwastraff felly, fel cynhyrchydd y gwastraff at ddibenion y Rheoliadau hyn."

Mewnosod rheoliad 14A (gwastraff peryglus a gynhyrchir mewn mangre siop)

7. Ar ôl rheoliad 14, mewnosoder—

"14A—(1) Caiff gwastraff peryglus a gynhyrchwyd mewn mangre siop gan gwsmeriaid y meddiannydd ei drin at ddibenion y Rheoliadau hyn megis petai'r meddiannydd wedi'i gynhyrchu.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, mae i "mangre siop" yr ystyr a roddir i "*shop premises*" gan adran 1(3) o Ddeddf Swyddfeydd, Siopau a Mangreoedd Rheilffyrdd 1963(1)."

Diwygio rheoliad 21 (gofyniad i hysbysu'r fangre)

8. Yn rheoliad 21(1), ar ôl "oddi yno" mewnosoder "neu ei gasglu oddi yno".

Disodli rheoliad 23 (esemptiad o'r gofyniad i hysbysu)

9. Yn lle rheoliad 23, rhodder—

"Esemtiad o'r gofyniad i hysbysu

23.—(1) Nid oes angen hysbysu mangre esempt i'r Asiantaeth yn unol â'r Rhan hon.

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae mangre yn fangre esempt os yw'n cydymffurfio â'r amod ym mharagraff (3) ac â'r naill neu'r llall o'r amodau ym mharagraff (4) neu (5).

(3) Yr amod yn y paragraff hwn yw nad oes unrhyw wastraff peryglus yn cael ei symud ymaith o'r fangre gan unrhyw berson heblaw—

- (a) cludwr a gofrestrwyd o dan Ddeddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989(2); neu
- (b) cludwr sydd wedi'i eithrio rhag y gofyniad i gofrestru o dan y Ddeddf honno.

- (a) from the domestic premises at which the waste was produced; or
- (b) at a site for the reception of domestic waste to which the separated domestic fractions are taken by an occupier of domestic premises.

(4) After separated domestic fractions have been removed from the premises at which the waste was produced and taken to other premises for collection, disposal or recovery, any establishment or undertaking which accepts the separated domestic fractions for collection, disposal or recovery must be treated from the time at which the waste is so accepted as the producer of the waste for the purposes of these Regulations."

Insertion of regulation 14A (hazardous waste produced at shop premises)

7. After regulation 14 insert—

"14A.—(1) Hazardous waste produced at shop premises by customers of the occupier shall be treated as being produced by the occupier for the purpose of these Regulations.

(2) For the purposes of this regulation, "shop premises" has the meaning given by section 1(3) of the Offices, Shops and Railway Premises Act 1963(1)."

Amendment of regulation 21 (requirement to notify premises)

8. In regulation 21(1), after "produced at," insert "collected at,".

Replacement of regulation 23 (exemption from the requirement to notify)

9. For regulation 23, substitute—

"Exemption from the requirement to notify

23.—(1) Exempt premises need not be notified to the Agency pursuant to this Part.

(2) In these Regulations, premises are exempt premises if they comply with the condition in paragraph (3) and with either of the conditions in paragraph (4) or (5).

(3) The condition in this paragraph is that no hazardous waste is removed from the premises by any person other than—

- (a) a carrier registered under the Control of Pollution (Amendment) Act 1989(2); or
- (b) a carrier exempt from the requirement to register under that Act.

(1) 1963 p. 41.

(2) 1989 p. 14.

(1) 1963 c. 41.

(2) 1989 c. 14.

(4) Yr amod yn y paragraff hwn yw fod y fangre yn llong.

(5) Yr amod yn y paragraff hwn yw fod y terfynau cymwys yn gymwys."

Diwygio rheoliad 26 (darpariaethau cyffredin ynghylch hysbysiadau)

10. Yn lle rheoliad 26(8), rhodder—

"(8) Rhaid i'r Asiantaeth, os caiff gais i wneud hynny, hysbysu person sy'n ddeiliad gwastraff peryglus neu sy'n cynnal busnes traddodi neu gasglu gwastraff peryglus, os yw unrhyw fangre lle mae'r person hwnnw yn bwriadu symud ymaith ohoni, peri symud ymaith ohoni neu'n bwriadu cludo unrhyw wastraff peryglus yn fangre a hysbyswyd, ac os felly, y manylion sydd gan yr Asiantaeth ynghylch—

- (a) cyfeiriad y fangre, gan gynnwys y cod post;
- (b) cod y fangre;
- (c) enw deiliad cod y fangre; ac
- (ch) dyddiad y daw cod y fangre i ben arno, sef diwedd y cyfnod hysbysu."

Disodli rheoliad 30 (y terfynau cymwys)

11. Yn lle rheoliad 30, rhodder—

"Y terfynau cymwys

30.—(1) Y terfynau cymwys ar gyfer—

- (a) gwasanaeth symudol yw bod cyfanswm yr holl wastraff peryglus a gynhyrchir yn y fangre, neu a gesglir ynddi neu a symudir ohoni wrth gynnal y gwasanaeth hwnnw mewn unrhyw set unigol o fangreoedd cysylltiedig yn llai na 500kg mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis; a
- (b) unrhyw fangre esempt, yw bod cyfanswm yr holl wastraff peryglus a gynhyrchir yn y fangre neu a gesglir ynddi neu a symudir ohoni yn llai na 500kg mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis.

(2) Wrth gyfrifo swm yr holl wastraff peryglus rhaid peidio â rhoi cyfrif am unrhyw swm o wastraff peryglus yn erbyn mwy nag un o'r gweithgareddau ym mharagraff (1)(a) neu (b)."

Diwygio rheoliad 32 (dehongli'n gyffredinol Ran 5)

12. Yn rheoliad 32—

- (a) hepgorer y diffiniadau a ganlyn—

(4) The condition in this paragraph is that the premises are a ship.

(5) The condition in this paragraph is that the qualifying limitation applies."

Amendment of regulation 26 (common provisions on notifications)

10. For regulation 26(8), substitute—

"(8) The Agency must inform on request, a person who is the holder of hazardous waste or who carries on the business of consigning or collecting hazardous waste, whether any premises from which that person proposes to remove, cause to be removed or transport any hazardous waste are notified premises, and if so, the particulars held by the Agency concerning—

- (a) the address of the premises, including the postcode;
- (b) the premises code;
- (c) the name of the holder of the premises code; and
- (d) the date of expiry of the premises code, being the end of the period of notification."

Replacement of regulation 30 (the qualifying limitation)

11. For regulation 30, substitute—

"The qualifying limitation

30.—(1) The qualifying limitation for—

- (a) a mobile service is that the total aggregated quantity of hazardous waste produced at, collected at, or removed from any one set of related premises in the course of that service is less than 500kg in any period of twelve months; and
- (b) any exempt premises, is that the total aggregated quantity of hazardous waste produced at, collected at, or removed from the premises is less than 500kg in any period of twelve months.

(2) When calculating the aggregated quantity, any quantity of hazardous waste must not be counted against more than one of the activities in paragraph (1)(a) or (b)."

Amendment of regulation 32 (general interpretation of Part 5)

12. In regulation 32—

- (a) omit the following definitions—

"cludwr cofrestredig" ("*registered carrier*"),
"cyfarpar gwastraff trydanol ac electronig" ("*waste electrical and electronic equipment*"),
"Deddf 1963" ("*the 1963 Act*"),
"mangre siop" ("*shop premises*"), a
"mangre swyddfa" ("*office premises*");
a
(b) yn y man priodol mewnosoder—
"mae i'r ymadrodd "cod mangre" ("*premises code*")
yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 27(1);
mae i'r ymadrodd "terfynau cymwys" ("*qualifying limitation*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 30;"

Diwygio rheoliad 42 (dyletswydd traddodai nad yw'n derbyn y traddodi)

13. Yn rheoliad 42—

- (a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "dangos ar Ran E", rhodder "dangos, yn y rhan ag iddo'r pennawd "tystysgrif y traddodai"";
- (b) yn lle paragraff (6)(a) rhodder—
 - "(a) i wneud trefniadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol i drosglwyddo'r llwyth neu'r rhan o'r llwyth a wrthodwyd i draddodai penodedig arall sy'n dal trwydded gwastraff neu sy'n gwneud gwaith gwastraff esempt ar gyfer adfer neu waredu'r gwastraff; a,"; ac
- (c) ar ôl paragraff (7) mewnosoder—
 - "(8) Yn y rheoliad hwn, mae i "gwaith gwastraff esempt" yr ystyr a roddir i "*exempt waste operation*" yn rheoliad 5 o Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007(1)."

Diwygio rheoliad 48 (cofnodion gwaredu neu adfer gwastraff peryglus drwy ddulliau eraill)

14. Yn lle rheoliad 48(3)(c), rhodder—

"(c) y dull gwaredu neu adfer mewn perthynas â'r gwastraff drwy gyfeirio at y rhif a'r disgrifiad cymwys yn unol ag Atodiad IIA neu IIB o'r Gyfarwyddeb Gwastraff; a".

Diwygio rheoliad 49 (cofnodion cynhyrchwyr, deiliaid a thraddodwyr)

15. Yn rheoliad 49(1), ar ôl y geiriau "os yw'n wahanol i'r cynhyrchydd," mewnosoder "neu'r deiliad".

"the 1963 Act" ("*Deddf 1963*"),
"office premises" ("*mangre swyddfa*"),
"registered carrier" ("*cludwr cofrestredig*"),
"shop premises" ("*mangre siop*"), and
"waste electrical and electronic equipment" ("*cyfarpar gwastraff trydanol ac electronig*"); and
(b) after the definition of "period of notification", insert—
""premises code" ("*cod mangre*") has the meaning given by regulation 27(1);
"qualifying limitation" ("*terfynau cymwys*") has the meaning given by regulation 30;"

Amendment of regulation 42 (duty of consignee not accepting delivery)

13. In regulation 42—

- (a) in paragraph (3)(a), for "indicate on Part E", substitute "indicate, in the part headed "consignee's certificate"";
- (b) for paragraph (6)(a) substitute—
 - "(a) make arrangements as soon as reasonably practicable for the transfer of the rejected consignment or part to another specified consignee who holds a waste permit or carries on an exempt waste operation for the recovery or disposal of waste; and,"; and
- (c) after paragraph (7), insert—
 - "(8) In this regulation, "exempt waste operation" ("*gwaith gwastraff esempt*") has the meaning given in regulation 5 of the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2007(1)."

Amendment of regulation 48 (records of disposal or recovery by other means)

14. For regulation 48(3)(c), substitute—

"(c) the disposal or recovery method in respect of the waste by reference to the numbering and description applicable in accordance with Annex IIA or IIB of the Waste Directive; and".

Amendment of regulation 49 (producers', holders' and consignors' records)

15. In regulation 49(1), after the words "where different from the producer" insert "or holder".

Jane Davidson

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a
Thai, un o Weinidogion Cymru

Minister for Environment, Sustainability and Housing,
one of the Welsh Ministers

27 Hydref 2009

27 October 2009

©[©] Hawlfraint y Goron 2009

© Crown copyright 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.